



Site Stakeholder Group
Grŵp Rhanddeiliaid Safle

**Cofnodion cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a gynhaliwyd
ddydd Iau 13 Tachwedd 2014 yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian**

Yn bresennol:

Mr Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle Magnox Wylfa
Karin White	Ysgrifenyddiaeth GRhS Magnox
Lowri Joyce	Swyddog Cyfathrebu Magnox Trawsfynydd/Wylfa
Michelle Humphreys	Safle Magnox Wylfa
Mr Mark Thornton	Rheolwr Gwastraff, Safle Wylfa
Mr R Foxhall	Horizon Nuclear Power
Hugh Townsend	Cwnstablfaeth Niwclear Sifil, Safle Wylfa
Mr Nick Blackburn	Arolygiaeth Safleoedd (ONR), Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, NSD
Deborah Ward	Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Mr Tim Poole	ADCW
Cyng K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Cyng Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn (Cadeirydd GRhS)
Cyng William T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Cyng J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Cyng R Hughes	Cyngor Cymuned Mechell
Cyng G W Roberts	Cyngor Tref Amlwch (Is-gadeirydd GRhS)
Mr H Jordan	Ffederasiwn Busnesau Bach, Garej Glan Rhos
Dr Thomas Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Dr Derek Gadson	FIACP
Gwyn Hughes	Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru
Shirley Huws	Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru
Cai Jones	Yn cynrychioli Rhun ap Iorwerth
Mr Roger Dobson	Aelod o'r Cyhoedd
Mr Gordon Warren	Pwyllgor Preswylwyr Porth Llechog
Mel O'Hara	Aelod o'r Cyhoedd
Kelly Duane	Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cavendish Fluor Partnership
Marton Fabok	Preswylydd Lleol / Myfyriwr PhD
Mrs Ann Llwyd	Cymen – Cyfieithu ar y pryd
Miss Elen Williams	Cymen – Cofnodion

Ymddiheuriadau:

Mr Albert Owen	Aelod Seneddol Ynys Môn
Mr Rhun ap Iorwerth	Aelod Cynulliad
Mr Richard Parry Jones	Prif Weithredwr – Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Dave Clarke	Diogelwch Niwclear Sifil y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Mr David Hughes	Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru
Cyng J Griffith	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Dr John Idris Jones	Ynys Ynni/Magnox

Gemma Morris
Cyng Elfed Jones
Cyng Tom Jones
Mark Saunderson
Clive Jones
Mr Peter Harrup
Cyng J Dobson
Cyng Val Roberts
Robin Grove-White
Helen Grove-White
Mrs Jean Jones
Mr Steve Roberts
Mike Dodds
Alwyn Rowlands
Annette Jones
Mr Dylan Williams

Dŵr Cymru
Cyngor Cymuned Llanbadrig
Cyngor Cymuned Cylch y Garn
Cynrychiolydd Undeb Llafur
Y Gwasanaeth Cynllunio Rhanbarthol
Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Cyngor Cymuned Llanbadrig
Cyngor Tref Amlwch
Menter Mechell
Fforwm Celf Ynys Môn
Ysgol Syr Thomas Jones
Preswlydd Lleol
Aelod o'r Cyhoedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Sefydliad y Merched (WI)
Adfywio Economaidd a Chymunedol, CSYM

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Gan ei bod yn 100 mlynedd ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf nododd y byddai munud o dawelwch yn cael ei gynnal fel arwydd o barch. Cyn dechrau, fodd bynnag, cyfeiriodd at ddigwyddiad trist a oedd yn gysylltiedig â'r safle, lle'r eglurodd Stuart Law fod un o'r swyddogion diogelwch wedi llewygu ar y safle a thrist yw cyhoeddi ei fod wedi marw'n ddiweddarach. Roedd pawb wedi'u brawychu gan y newyddion, ac roedd pawb yn estyn eu cydymdeimlad â'r teulu.

Cafwyd munud o dawelwch.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Deborah Ward, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol yr ADN, Nick Blackburn, Arolygydd Safleoedd yr ONR, Kelly Duane, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Cavendish Fluor Partnership, Cai Jones, a oedd yn bresennol ar ran Rhun ap Iorwerth, a Shirley Huws a Gwyn Hughes, a fyddai'n rhoi cyflwyniad ar Wasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

2. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2014

Cynigiodd y Cyng William Hughes eu bod yn gofnod cywir, a chafodd ei eilio gan y Cyng Ken Hughes.

3. Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol

Roedd un cywiriad i'r paragraff olaf o dan y diweddariad gan Is-grŵp Gwastraff GRhS Wylfa ar dudalen 5 – 'roedd 5' canfyddiad yn y maes rheoli gwastraff, nid 35.

4. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

Yn ystod Penwythnos Gŵyl Banc y Pasg, aethpwyd â Thyrbîn 1 i 1500 rpm ac yna fe'i diffoddwyd er mwyn canfod achos y sŵn curo o bedestal y pen stêm. Hefyd, yn ystod y gwyliau, nid oedd yr Inlet Guide Vanes (IGV) ar gylchredwr nwy 3 yn gweithio. O ganlyniad, cafodd pwysedd Adweithydd 1 ei ostwng er mwyn dadgydosod a thrwsio'r IGV. Nododd Stuart Law ei bod yn hawdd cyrraedd brig 'potiau'r' gyriant ond ei bod yn anodd cyrraedd y rhannau ar yr ochr chwith a de isaf. Ni allai warantu na fyddent yn dal eto ond roedd y safle wedi rhoi sylw i'r camau y byddai angen eu cymryd pe bai sefyllfa o'r fath yn codi eto. Roedd llawer o waith profi wedi'i wneud yn y cyfamser. Roedd staff shifft hefyd yn cael eu hyfforddi yn dilyn newid i Gyfarwyddyd Gweithredu'r Orsaf (SOI).

Ddiwedd Mehefin, canfuwyd problem mewn pibell Dŵr Oeri Ategol yr Adweithydd (RACW). Arweiniodd hyn at ddraenio'r holl system i wneud gwaith atgyweirio, ond roedd y safle'n gallu ailddechrau gweithredu o fewn rhyw bythefnos. Cafwyd nodyn o ddiffyg cydymffurfiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn adolygiad.

Ddechrau mis Gorffennaf, dechreuodd ager ddianc o bibell ager Pwysedd Uchel Tyrbin 1, ac felly bu'n rhaid cau'r Adweithydd gan mai hwn oedd yr unig dyrbin oedd ar gael. Cafodd y gollyngiad ei drwsio a dechreuodd Adweithydd 1 weithredu eto ar 13 Gorffennaf. Canfuwyd gollyngiadau yn y boeler ar ôl ailddechrau gweithredu, cyfanswm o dri; nid oedd hyn yn annisgwyl ond roeddent yn cael eu monitro.

Nododd Stuart Law fod hwn wedi bod yn un o'r cyfnodau dychwelyd i wasanaeth anoddaf a dywedodd fod llawer o broblemau wedi deillio o bethau a wnaethpwyd flynyddoedd yn ôl.

Dyweddod hefyd fod rhai aelodau staff wedi mynd dros y gyfarwyddeb oriau gweithio, gan fod y staff cynnal a chadw wedi bod yn gweithio oriau ychwanegol yn ystod y cyfnod prysur hwn. Fodd bynnag, roedd y safle wedi ymgynghori â'r Undebau Llafur ac ati i wneud yn siŵr bod popeth yn cael ei wneud yn briodol a theg.

Roedd gweithrediadau tanwydd wedi galluogi Wylfa i gynaeafu elfennau tanwydd ar safle uchder 8 (FE8s) o Adweithydd 2 fel rhan o'r Trosglwyddo Rhyng-adweithydd. Erbyn hyn, roedd traean wedi'i gynaeafu ac roedd gwaith wedi dechrau i lwytho'r rhain i Adweithydd 1,

Nododd ei bod yn anodd llwytho'r tanwydd hwn i Adweithydd 1 mewn rhai achosion oherwydd amrywiadau mewn maint a siâp, a bod hyn yn rhywbeth yr oeddem yn debygol o'i weld yn amlach.

Roedd Stuart Law yn falch o ddweud bod Wylfa wedi cael caniatâd i barhau i gynhyrchu gydag Adweithydd 1, yr adweithydd sy'n dal yn weithredol, tan ddiwedd Rhagfyr 2015. Roedd yr Adolygiad Diogelwch Cyfnodol (PSR) wedi cael ei gyflwyno ym mis Medi 2013 – rhaid cyflwyno'r PSR bob 10 mlynedd ac mae'n cynnwys yr adolygiad i weithredu'r safle'n ddiogel am y 10 mlynedd nesaf. Mae'n cynnwys tri chyfnod – cynhyrchu ynni tan Ragfyr 2015, tair blynedd o ddat-danwyddo ac yna datgomisiynu. Cafodd y PSR ei adolygu gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ac roedd eu hasesiad yn nodi bod angen gweithio ar ragor o eitemau, a bod sylw'n cael ei roi iddynt ar hyn o bryd.

O ran y broses gystadleuaeth, ar 1 Medi 2014 cafodd y cyfranddaliadau eu trosglwyddo o EnergySolutions i Cavendish Fluor Partnership. Bu Peter Knollmeyer, Dirprwy Reolwr Gyfarwyddwr Magnox ac RSRL yn ymweld yr un wythnos a chafodd y staff eu diweddarau ar yr hyn sy'n digwydd. Roedd Stuart Law yn falch o ddweud ei fod yn teimlo bod ganddo ei gefnogaeth lawn

Bu un ddamwain lle cafodd blaenau bysedd unigolyn eu dal mewn drws wrth iddo geisio atal ei hun rhag syrthio i lawr grisiau. Roedd angen triniaeth feddygol arno.

Dyfarwyd Gwobr y Llywydd RoSPA i Wylfa, a chyflwynwyd Cwpan Syr George Earle i Magnox, sef gwobr bwysicaf RoSPA.

Mae llawer wedi'i wneud o ran sut y byddai'r safle'n ymateb i ddigwyddiad o ganlyniad i adroddiad ôl Fukushima yr ONR, ac mae taflen wybodaeth wedi'i chynhyrchu sy'n dangos yr hyn sydd wedi'i brynu fel ffonau lloeren a phympiau tân. Ar gyfer yr adeilad offer argyfwng Beyond Design Basis newydd yn Wylfa, bu'r safle'n profi'r offer newydd hwn yn ystod ymarferiad yn ddiweddar pan ddefnyddiwyd boeleri Adweithydd 2 i roi prawf ar y cysyniad.

Pwysleisiodd eu bod yn dal yn awyddus i ddysgu fel safle ac nad oeddent am laesu dwylo. Roedd Cymdeithas Gweithredwyr Niwclear y Byd (WANO) wedi cael ei gwahodd i Wylfa i gynnal

Cenhadaeth Cymorth Technegol mewn Rheoli Tân i helpu Wylfa i weld beth ellid ei wneud yn well. Cafwyd adborth, yn ogystal â phedwar maes i ganolbwyntio arnynt. Pwysleisiodd Stuart Law mai'r nod yw ceisio sicrhau bod y safle mewn cyflwr gwell pan fydd yn rhoi'r gorau i gynhyrchu nag y mae ynddo heddiw.

Cafwyd nifer o ymwelwyr, gan gynnwys yr actores a'r cyflwynydd teledu Penelope Keith, a ddaeth i weld Gerddi Cestyll fel rhan o'i chyfres 'Hidden Villages' ar gyfer Channel 4 .

Unwaith eto, mae'r staff wedi bod yn codi arian at achosion da, ac roedd Stuart Law yn falch o gyhoeddi bod £20,000 wedi'i gyflwyno i elusennau lleol gan bobl Wylfa o dan y cynllun Wylfa 21.

Cwestiynau

Nododd y Cadeirydd fod Wylfa wedi cyrraedd rhai cerrig milltir nodedig gyda'r cyfnod segur diwethaf a'r cyfnod cynhyrchu diwethaf. Roedd yn galonogol i glywed bod £20,000 wedi'i godi gan weithwyr Wylfa tuag at elusennau lleol a bod y gymuned leol yn amlwg yn agos at galonnau gweithwyr Wylfa. Nododd hefyd mai Wylfa oedd y trwyddedai cyntaf i ddirwyn eu holl weithredoedd i ben yn achos adroddiad Weightman.

Cyfeiriodd Dr Tom Conway at y datganiad bod y safle'n gobeithio dychwelyd cell storio sych eilaidd pump i wasanaeth i helpu dat-danwyddo. Nododd fod celloedd storio sych pedwar a phump wedi cael eu gwagio a bod caniatâd cynllunio wedi'i gael gan yr Awdurdod Lleol a oedd yn datgan bod yn rhaid iddynt fod yn wag erbyn dyddiad penodedig. A fyddai dychwelyd cell storio sych eilaidd pump yn ôl i wasanaeth yn mynd yn groes i'r caniatâd cynllunio hwn, ac a fyddai angen caniatâd cynllunio pellach?

Eglurodd Stuart Law fod 95,000 o elfennau tanwydd ar y safle a fyddai angen eu cludo i Sellafield pan fyddai cynhyrchu'n dod i ben. Roedd dau lwybr posibl. Byddai'n amhriodol i beidio ag ystyried y llwybr eilaidd, fel opsiwn wrth gefn yn bennaf pe bai rhywbeth yn digwydd i'r llwybr cyntaf. Byddai'n annerbyniol pe byddai Wylfa yn cadw Sellafield i aros. Mae Cell Storio Sych 5 yn cael ei hadnewyddu fel y gallai'r safle wneud cais am drwydded gan yr ONR pe bai angen. Dywedodd nad oedd yn credu y byddai angen gwneud cais cynllunio arall.

Holodd Arthur Jones am yr anawsterau gyda throsglwyddo tanwydd o Adweithydd 2 i Adweithydd 1, oherwydd y gwahanol siapiau ac ati, ac a yw'r broblem hon yn debygol o godi eto. Gofynnodd hefyd pa ganran o danwydd a oedd wedi'i gymryd o Adweithydd 2.

Lluniodd Stuart Law ddiagram i egluro'r problemau a oedd yn golygu ei bod yn anodd gosod rhai o'r elfennau tanwydd o Adweithydd 2 yn Adweithydd 1. O ran y ganran, roedd tua 15% o'r tanwydd wedi'i gymryd o Adweithydd 2.

5. Adroddiad Cadeirydd y GRhS

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei adroddiad ysgrifenedig a oedd yn amlinellu'r dyletswyddau a'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy ers y cyfarfod diwethaf. Eglurodd y byddai'n cael cyfarfod â Phartneriaeth Cavendish Fluor yn Llundain ar 18 Rhagfyr. Roedd yn awyddus i wybod a fyddai unrhyw newid yn yr ymrwymadau economaidd gymdeithasol.

Cwestiynau

Gofynnodd Dr Tom Conway am eglurhad ar y cysylltiad rhwng Cavendish Fluor a Babcock, o gofio bod cysylltiad Babcock wedi'i hysbysebu yn ystod y broses fidio a'i fod yn siomedig nad oedd wedi'i gynnwys yn enw'r Sefydliad Rhiant Gorff.

Dywedodd y Cadeirydd fod gan Babcock International gysylltiadau eraill â'r ynys yn RAF y Fali. Nodwyd mai Cavendish Fluor oedd enw'r Sefydliad Rhiant Gorff ar gyfer Magnox a bod eu staff

wedi cael eu secondio i Magnox. Dywedodd Stuart Law fod achos cyfreithiol ar hyn o bryd ynghylch enw Babcock.

Gofynnodd Ken Hughes a oedd gan y Cadeirydd unrhyw newyddion neu sylwadau yn dilyn y cyfarfodydd y bu'n bresennol ynddynt. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi'i benodi'n ddiweddar i swydd Is-gadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol.

6. Diweddariad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Eglurodd Deborah Ward Fodel Contract yr ADN ac aeth ymlaen i rannu'r newyddion diweddaraf am yr ADN.

Roedd pedwerydd Digwyddiad Blynyddol Cadwyn Gyflenwi Ystadau'r ADN wedi'i gynnal ym Manceinion yr wythnos diwethaf, a dyma oedd y mwyaf llwyddiannus eto, gyda thua 1,4000 yn ymweld â'r ganolfan. Credir mai dyma'r digwyddiad mwyaf o'i fath yn Ewrop.

Cafodd cyfanswm o £13 miliwn ei ddyfarnu i gwmnïau a chonsortia yn y DU i helpu i ddatblygu technolegau arloesol ar gyfer y diwydiant niwclear, gan gynnwys datgomisiynu, gweithrediadau presennol a gorsafoedd newydd. Mae'r arian yn fenter ar y cyd rhwng Innovate UK, yr ADN a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd mewn ymdrech i ysgogi arloesedd.

Mae dat-danwyddo yn Oldbury wedi cyrraedd carreg filltir bwysig gan fod dros hanner y 52,060 o elfennau tanwydd ar y safle wedi cael eu tynnu o'r ddau adweithydd.

Mae Albion Square, swyddfeydd sydd wedi costio miliynau o bunnoedd yng ngorllewin Cumbria, ac a adeiladwyd gan yr ADN, wedi agor yn swyddogol. Yn y diwedd bydd yr adeilad pedwar llawr yn gartref i 1,000 o weithwyr Sellafield, sy'n cael eu trosglwyddo o'r safle datgomisiynu i ganol Whitehaven, lle disgwylir y bydd yn cael effaith sylweddol ar yr economi.

Caniatawyd blwyddyn ychwanegol o weithredu i Wylfa a bydd yn parhau i gynhyrchu trydan tan fis Rhagfyr 2015.

Mae'r contract Sefydliad Rhiant Gorff newydd wedi'i ddyfarnu i'r Cavendish Fluor Partnership, a rhagwelir arbedion o fwy na £1.5 biliwn i'r coffrau cyhoeddus wrth i'r Bartneriaeth ddechrau rhoi ei chynlluniau ar waith.

Mae'r drwydded niwclear wedi'i diddymu ar ddwy lain o dir ar safle Harwell. Mae cyfanswm y safleoedd sydd wedi'u dad-drwyddedu bellach yn 25 hecтар, ac mae hyn yn cyfateb i 25% o'r ardal a drwyddedwyd yn wreiddiol.

Cwestiynau

Gofynnodd Arthur Jones am ba hyd y mae Sellafield yn debygol o fod yn weithredol.

Dywedodd Deborah Ward fod disgwyl iddo fod yn weithredol am nifer o ddegawdau eto. Nododd hefyd mai dyna fyddai eu blaenoriaeth uchaf am y blynyddoedd nesaf.

7. Diweddariad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Croesawyd Nick Blackburn, Arolygydd newydd yr ONR ar gyfer Wylfa. Mae wedi bod yn ei swydd ers 1 Hydref a chafwyd crynodeb byr ganddo o adroddiad y trydydd chwarter.

Soniodd am y PSR a gyflwynwyd gan Wylfa. Roedd yr ONR wedi rhoi caniatâd a nododd un neu dwy o eitemau gwaith pellach a oedd eu hangen ac a oedd yn ymwneud yn bennaf â dat-danwyddo a symud ymlaen i Ofal a Chynnal a Chadw. Nododd hefyd eu bod wedi rhoi caniatâd i ddychwelyd i weithredu a phwysleisiodd ymrwymiad Cyfarwyddwr y Safle.

Roedd llythyr gorfodi wedi cael ei anfon at y safle yn dilyn y digwyddiad lle'r oedd perygl y gallai gweithwyr ar y to fod wedi cael eu hamlygu i ymbelydredd. Ymchwiliodd y safle i'r mater, ond roedd yr ONR yn teimlo bod y mater yn haeddu llythyr gorfodi oherwydd natur yr esgeulustod gan na ddylai'r digwyddiad fod wedi digwydd. Fodd bynnag, roedd ymateb Wylfa wedi bod yn dda iawn.

O ran yr ymatebion i Fukushima, Wylfa oedd y trwyddedai cyntaf i gwblhau pob ymateb. Gwnaethpwyd awgrymiadau ac roedd Wylfa wedi ymateb. Eglurodd Stuart Law fod y safle wedi rhoi tanc olew tanwydd newydd ar waith ac wedi prynu ffonau loeren, fel yr oedd wedi'i awgrymu. Yn dilyn arolygiad gan ddau o arolygwyr yr ONR yn gynharach yn y flwyddyn daethpwyd i'r casgliad bod y gwaith hwn yn foddhaol.

Cwestiynau

Gofynnodd Mr Dobson a oedd dyddiad mwy pendant ar gyfer rhoi'r gorau i gynhyrchu, yn hytrach na Rhagfyr 2015.

Dywedodd Stuart Law eu bod yn anelu at flwyddyn gyflawn ac mai'r dyddiad ar gyfer gorffen cynhyrchu fyddai 31 Rhagfyr 2015; dyma beth roedd wedi'i ddweud wrth y staff. Dywedodd y dylent yn awr fod yn paratoi ar gyfer y cam nesaf, sef dat-danwyddo ymlaen o Ofal a Chynnal a Chadw ac y byddai newid i'r cam hwn yn golygu newidiadau i Reolau Gweithredu'r Orsaf.

Gan y byddai'r gwaith cynhyrchu yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2015, gofynnodd Arthur Jones faint o danwydd Adweithydd 2 sy'n debygol o gael ei ddefnyddio i gyrraedd Rhagfyr 2015.

Dywedodd Stuart Law ei fod yn rhagweld fod tua 50% ar ôl i'w ddefnyddio yn Adweithydd 2.

Gofynnodd Mr Tom Conway faint o adweithedd sydd ar ôl. Mae'r Llywodraeth wedi ein hysbysu bod perygl na fydd digon o bŵer ar gyfer y grid cenedlaethol y gaeaf hwn. Pe bai'r Llywodraeth yn gofyn a fyddai modd i Wylfa ddal ati i gynhyrchu, dywedodd Stuart Law mai penderfyniad i Dîm Gweithredol Magnox, ac nid ei benderfyniad ef, fyddai hyn.

Gan na chafwyd rhagor o gwestiynau, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n syniad da i anfon llythyr at Tom Davenport, arolygydd ONR sydd newydd ymddeol, i ddymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad.

8. Diweddariad gan Is-grŵp Gwastraff GRhS Wylfa

Roedd yr Is-grŵp Gwastraff wedi cwrdd ar 13 Hydref 2014 - nododd Mark Thornton y pum prif bwynt i'w crybwyll.

Y cyntaf oedd y newid i'r Sefydliad Rhiant Gorff, a oedd wedi'i nodi'n gynharach yn y cyfarfod.

Yn ail, dywedodd fod gweddillion wedi crydu wedi'u gwaredu o Gell Storio Sych 4. Cynhyrchwyd model 3D i roi darlun cliriach o'r cynnwys ac i ddangos yr hyn oedd ynghlwm wrth y broses. Byddai modd dod â'r model i gyfarfod nesaf y GRhS er mwyn i bawb gael ei weld.

Cam i'w gymryd - Mark i ddod â'r model DSC4 Bico i'r cyfarfod nesaf

Yn drydydd, o ran y Strategaeth Ansawdd Tir, roedd astudiaeth desg yn cael ei chynnal i benderfynu ar nifer a lleoliad y tyllau turio y bydd eu hangen i gael data hydrodadaegol. Mae angen y data hwn i ddangos bod ansawdd y tir yn foddhaol ar gyfer cam Gofal a Chynnal a Chadw'r safle.

O ran y Cydgynllun Rheoli Gwastraff, dywedodd Mark Thornton eu bod ar y blaen yn achos metelau, gyda mwy o fetel Gwastraff Lefel Isel (LLW) yn cael ei ailgylchu na'r hyn oedd wedi'i gynllunio yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn, ond eu bod ychydig ar ei hôl hi yn achos y lefelau

a ragwelwyd ar gyfer LLW llosgadwy. Roedd LLW llosgadwy wedi cael ei anfon i Berkshire mewn cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio sy'n well na defnyddio drymiau un defnydd. Heddiw, mae'r ail lwyth o gynwysyddion ail ddefnydd wedi cael ei anfon, a thybiwyd fod y llwybr hwn yn awr yn agored. Roedd gwastraff lefel isel iawn hefyd yn destun trafod yn y cyfarfod a gellir yn awr anfon hwn i safleoedd tirlenwi a ganiateir, ac mae peiriant newydd sy'n profi'r lefel isel iawn hon o ymbelydredd yn cael ei gomisiynu.

Yn olaf, o ran canfyddiadau'r Adolygiad Diogelwch Cyfnodol, roedd 5 wedi'u cyhoeddi yn y maes gwastraff ac mae 4 datganiad terfynu wedi'u cyhoeddi. Mae disgwyl y datganiad terfynu terfynol ar gyfer yr Achos Diogelwch Gwastraff Ymbelydrol yn Ionawr 2015.

9. Diweddariad ar y Cynllun Economaidd Gymdeithasol

Roedd Michelle Humphreys yn falch iawn o nodi bod 24 o fudiadau cymunedol yn ardal Wylfa wedi cael y wobwr 'cymydog da' gyda chymorth o hyd at £1,000.

Enwodd rai o'r mudiadau sydd wedi cael cymorth, gan gynnwys: Agewell Amlwch a oedd wedi cael £2,500 fel cyfraniad at fws mini cymunedol newydd, a Pontio, Prifysgol Bangor, a oedd wedi cael £1,000 i brynu iPads tuag at raglen Fenter ar gyfer ysgolion uwchradd yn Ynys Môn.

Cafodd Cynllun Addysg Beirianeg Cymru £1,500 tuag at brosiect STEM ar gyfer dosbarthiadau chwech mewn dwy ysgol uwchradd; dyfarnwyd £21,754 i Fenter Mechell i sefydlu Siop Gymunedol Llanfechell gyda chyfleoedd i 20 o wirfoddolwyr; a dyfarnwyd y swm sylweddol o £42,021 i Academi Hyfforddi Ynys Môn yng Nghaerdybi gyda'r prosiect yn cael ei lansio ar 22 Rhagfyr 2014.

Nododd hefyd ei bod yn braf clywed bod Hyfforddiant Parys, Amlwch, a gafodd £6,800 i brynu 10 cyfrifiadur wedi rhagori ar eu targed o 120 o gyfleoedd hyfforddi, a'u bod wedi cwblhau 170.

Dywedwyd y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ar 12 Rhagfyr i drafod materion economaidd gymdeithasol â Thim Gweithredol Cavendish Fluor Partnership, gyda'r ymgynghoriad ar gynllun economaidd gymdeithasol Cavendish Fluor yn cychwyn ym mis Ionawr 2015.

10. Datganoli Cynllunio Rhanbarthol i'r Rhanbarthau – Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru

Cafwyd trosolwg byr gan Gwyn Hughes ar sut y mae Cynghorau Sir Gogledd Cymru wedi dod at ei gilydd i greu gwasanaeth cynllunio argyfwng rhanbarthol. Roedd pob cyngor yn arfer bod â'i gynllun ei hun ond yn dilyn adolygiad penderfynwyd sefydlu cynllun ar lefel ranbarthol.

Bydd un Rheolwr, un Dirprwy, 10 swyddog ac un swyddog clerigol a fydd yn gweithio ar ran pob un o'r cynghorau a daw hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2015.

Bydd Cyngor Ynys Môn yn parhau i fod yn gyfrifol am y cynllun ar gyfer Wylfa, a chafodd hyn ei drafod â'r ONR. Eglurodd Gwyn Jones fod Wylfa yn rhan o'i bortffolio, a dywedodd ei fod yn ddiddorol iawn. Ni chafwyd dim cwestiynau gan yr aelodau.

11. Fforwm Agored a Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd y Cadeirydd Stuart Law am ddyfodol Gerddi Cestyll. Ar ôl clywed am y cyhoedduswydd diweddar gofynnodd beth yw'r trefniadau cynnal a chadw ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd Stuart Law eu bod yn parhau i'w cynnal a'u cadw fel yr oeddent wedi'i wneud yn y gorffennol. Bydd yn rhaid trafod â'r ADN beth fydd yn digwydd ar ôl gorffen cynhyrchu. Ni allai warantu beth fyddai'n digwydd ar ôl y cyfnod hwnnw ond dywedodd y byddant yn ceisio cael arweiniad ar y mater.

Gofynnodd Tom Conway beth oedd y ddarpariaeth ar gyfer y cyfarfod hwn a'r ganolfan ymwelwyr a'r clwb chwaraeon a chymdeithasol, yn dilyn cynigion gan Horizon i ddymchwel yr adeiladau presennol.

Dywedodd y Cadeirydd fod ymgynghoriad PAC 1 yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bod bwriad i adleoli.

Eglurodd Richard Foxhall o Horizon fod ymrwymiad cyfreithiol ar Horizon i barhau i ddarparu'r cyfleusterau a oedd eu hangen ar Magnox a'u bod yn awr yn ymgynghori ar y mater ac y byddai'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 8 Rhagfyr. Dywedodd y byddai'r ddau ddigwyddiad cyhoeddus mawr nesaf, y cyntaf yng Nghlwb Chwaraeon a Chymdeithasol Wylfa a'r llall yng Nghanolfan Agewell yn gyfle i aelodau ymweld â'r digwyddiad ac i ymateb ar sail hynny. Bydd cais cynllunio ar gyfer Cyfaddilad Porth Wylfa yn cael ei gyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Eglurodd na fyddai modd dymchwel yr adeiladau presennol nes byddai rhai newydd yn barod.

Gofynnodd Mr Dobson gwestiwn ar ddatgomisiynu. O ran yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol, sy'n ymdrin â'r diffiniad o gyflwr terfynol, gofynnodd a oedd unrhyw ddatblygiad sy'n fwy diweddar na 2013. Ei reswm dros ofyn y cwestiwn oedd dogfen ymgynghori Horizon. Yr oedd gwrthdaro'n bosibl rhwng datgomisiynu'r orsaf bresennol yn Wylfa ac adeiladu Wylfa Newydd, o safbwynt symud loriau HGV a'r niferoedd staffio o 607 a oedd wedi'i ddyfynnu. Gofynnodd a oedd y ffigurau hyn yn ddilys o hyd.

Dywedodd Stuart Law nad oedd dim ffigurau staff ar gael iddo ar hyn o bryd ar gyfer y cam datgomisiynu – bydd Tîm Gweithredol Magnox yn adolygu'r diffiniadau cyflwr terfynol ar gyfer safleoedd. Fodd bynnag, o ran y cynllun yn gyffredinol, y dyhead yw arbed dros £1 biliwn, felly bydd camau'n cael eu cymryd i edrych ar bob arbediad posibl. Mae'n fwy tebygol y byddai'n llai na'r ffigurau staff a ddyfynnwyd.

12. Unrhyw Fater Arall

Dim oedd dim mater arall.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm.